

**Safon Uwch Iechyd a Gofal
Cymdeithasol, a Gofal Plant**

1 Rhagarweiniad

Fel yr amlinellodd Cymwysterau Cymru yn ei ddogfen *Canllawiau ar drefniadau asesu wrth gefn ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u cymeradwyo (yma)*, dylai unrhyw brif ffocws fod ar baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau. Fodd bynnag, dylai canolfannau baratoi hefyd at y posibilrwydd y bydd angen rhoi trefniadau asesu wrth gefn ar waith ar gyfer haf 2022. Dylai canolfannau ddechrau casglu tystiolaeth asesu cyn gynted â phosibl, gan y gellir defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio unrhyw raddau a bennir gan ganolfannau (CDG) os bydd angen eu defnyddio.

Mae angen i'r broses hon fod mor hylaw â phosibl. Cynghorir canolfannau felly, wrth iddynt baratoi at cyfres arholiadau haf 2022, i wneud asesiadau'n rhan o'u haddysgu a dysgu arferol ac o unrhyw gynlluniau asesu sydd ganddynt ar waith. Rhaid i ganolfannau hysbysu dysgwyr pa drefniadau crynodol a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth i gefnogi unrhyw drefniadau wrth gefn.

Mae canllawiau Cymwysterau Cymru yn ymdrin â natur y dystiolaeth asesu a chynlluniau ar gyfer casglu'r dystiolaeth hon, gan gynnwys:

- rhaid i'r dystiolaeth asesu sy'n cael ei chasglu ymdrin â'r holl amcanion asesu a rhoi digon o sylw i ofynion cynnwys y fanyleb addasedig
- dylai canolfannau ddogfennu eu cynlluniau asesu ar gyfer pob pwnc a rhoi gwybod i'w dysgwyr a rhieni/gofalwyr beth yw'r dull asesu wrth gefn y byddant yn ei ddilyn
- y cynlluniau asesu hyn:
 - gallent fod yn rhai lefel uchel, yn gryno ac yn cyfateb i'r cynlluniau asesu presennol ar lefel y pwnc
 - ni fydd ar CBAC eu hangen oni bai bod arholiadau'n cael eu canslo a'r trefniant wrth gefn yn cael ei roi ar waith
- ni ddylai canolfannau roi manylion penodol asesiadau a ddefnyddir
- rhaid i ganolfannau ystyried addasiadau rhesymol y mae gan y dysgwyr yr hawl i'w cael gan eu cymhwyso at unrhyw asesiadau y gellid eu defnyddio i lywio unrhyw CDG
- dylai canolfannau ystyried yn ofalus pa mor deg yw defnyddio unrhyw fath penodol o dystiolaeth ar gyfer graddio (pe byddai angen defnyddio CDG).

Mae Cymwysterau Cymru yn bendant y dylid ond gwneud unrhyw benderfyniadau graddio cyffredinol os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu canslo cyfres arholiadau haf 2022, a hynny ar ôl darparu'r gefnogaeth ategol briodol yn unig. Ni fwriedir y wybodaeth yn y fframwaith asesu cymwysterau hwn i gefnogi'r dasg o bennu graddau a bennir gan ganolfannau ar hyn o bryd. Nid oes bwriad ychwaith iddo fynd yn groes i'r safbwynt presennol o ran polisi y dylai arholiadau ddigwydd yn haf 2022. Mae'n canolbwyntio ar natur y dystiolaeth y dylai canolfannau ei chasglu rhag ofn y bydd unrhyw drefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith.

2 Addasiadau ar gyfer 2022

Amlinellir yr addasiadau i gymwysterau Safon Uwch yn 2022 [yma](#). Yn ogystal, mae gwybodaeth am addasiadau i Asesiadau Di-arholiad i'w gweld ar dudalennau'r pynciau perthnasol ar wefan CBAC.

3 Gofynion allweddol i sicrhau dilyniant

Llwybr Gofal Plant

Yn Uned 3 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tri maes cynnwys a nodir ar dudalennau 39-46 y fanyleb.

Yn Uned 4 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tri maes cynnwys a nodir ar dudalennau 47-56 y fanyleb.

NEU

Llwybr Gofal Cymdeithasol Oedolion

Yn Uned 5 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r tri maes cynnwys a nodir ar dudalennau 57-63 y fanyleb.

Yn Uned 6 mae gofyn i ddysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pedwar maes cynnwys a nodir ar dudalennau 64-72 y fanyleb.

Rhaid rhoi digon o sylw i'r holl ofynion eang yn y fanyleb. Gall y ganolfan ddewis ymdrin yn fanylach â rhai agweddau. Ar draws y ddwy uned U2 dan sylw, rhaid ymdrin â phob un o'r tri amcan asesu.

4 Gwneud tasgau asesiadau crynodol

Ni ddylai canolfannau ddweud wrth y dysgwyr pa gwestiynau o asesiadau penodol a/neu fanylion asesiadau penodol a ddefnyddir ganddynt i gasglu tystiolaeth i gefnogi'r trefniadau wrth gefn. Gellir dweud wrth y dysgwyr, fodd bynnag, beth fydd testunau/themâu eu hasesiad.

Ni ddylai unrhyw ymgeisydd gael mantais nac anfantais wrth gynhyrchu tystiolaeth asesu grynodol yn yr ystafell ddosbarth. Dylai'r rheolaethau canlynol felly fod ar waith yn y canolfannau:

- rhaid i staff oruchwylio dysgwyr yn uniongyrchol
- ni chaniateir unrhyw adnoddau ychwanegol, heblaw am yr hyn a ddarperir yn yr arholiad arferol (neu addasedig) a amserlennwyd, neu a ganiateir ar gyfer gwneud tasgau Asesiad Di-arholiad
- ni ddylai dysgwyr gyfathrebu â'i gilydd gan fod rhaid cynhyrchu tystiolaeth asesu yn annibynnol, oni bai bod y dasg Asesiad Di-arholiad yn caniatáu gwaith grŵp
- ni ddylid rhoi cymorth i ddysgwyr (heblaw'r hyn a gytunwyd fel yn adran 5 isod).

5 Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol

Mae'n bwysig bod Arweinwyr Pynciau/Cwricwlwm yn cysylltu â'u CADY/CAAA er mwyn sicrhau ystyriaeth briodol o'r [canllawiau CGC](#) canlynol:

- llyfr Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 1 Medi 2021 i 31 Awst 2022
- Hysbysiad i Ganolfannau – Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac aseswyr – Mehefin 2021
- Gwybodaeth atodol bwysig ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac aseswyr 2021/22.

Lle mae trefniadau mynediad neu addasiadau wedi'u cytuno ar gyfer ymgeisydd (er enghraifft darllenydd neu ysgrifennydd), rhaid i'r ganolfan wneud pob ymdrech i sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith pan fydd asesiadau crynodol a allai gyfrannu at y trefniadau wrth gefn yn cael eu gwneud.

Yn ôl gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), mae angen i ysgolion a cholegau wneud penderfyniadau mewn ffordd sy'n deg, yn dryloyw ac yn atebol, gan ystyried anghenion a hawliau gwahanol ddysgwyr.

Yn yr un modd â chyfres arholiadau safonol, rhaid i ganolfannau barhau i brofi am drefniadau mynediad perthnasol (ac addasiadau i bapurau) ar gyfer yr asesiadau crynodol hyn. Dylent gyflwyno ceisiadau i CBAC a'u cymhwyso fel arfer.

6 Ystyriaeth Arbennig

Os yw dysgwr yn gymwys am ystyriaeth arbennig oherwydd digwyddiadau cymwys sydd y tu allan i'w reolaeth ar adeg gwneud yr asesiad crynodol wrth gefn, neu'n union o flaen hynny, dylai canolfannau ystyried hyn wrth farcio gwaith y dysgwr. Ymhlith digwyddiadau cymwys y mae:

- afiechyd dros dro neu ddamwain/anaf
- profedigaeth
- argyfwng domestig
- y ganolfan ddim yn rhoi trefniadau mynediad a gymeradwywyd yn flaenorol ar waith.

Dylai'r ganolfan roi ystyriaeth arbennig ar waith drwy ddefnyddio lwfans o farciau ychwanegol i bob asesiad yr effeithir arno. Mae maint y lwfans yn dibynnu ar amser, natur, a hyd a lled yr afiechyd neu amgylchiadau eraill.. Y lwfans mwyaf y gellir ei roi yw 5% o'r cyfanswm marciau crai sydd ar gael yn yr asesiad.

Dylid ystyried difrifoldeb yr amgylchiadau a dyddiad yr asesiad mewn perthynas â'r amgylchiadau. Rhaid i ganolfannau fod yn fodlon bod y mater neu'r digwyddiad wedi effeithio'n faterol, neu ei fod yn rhesymol debygol o fod wedi gwneud hynny, ar allu dysgwr i ddangos eu lefel arferol o gyrhaeddiad mewn asesiad.

Ni ellir cymhwyso ystyriaeth arbennig mewn modd cronus. Er enghraifft, oherwydd trawma diweddar ar adeg yr asesiad a'r dysgwr yn dioddef o salwch fïrol. Dim ond mewn achosion o'r anhwylder mwyaf difrifol y dylid gwneud cais am ystyriaeth arbennig. Mae tudalennau 6 a 7 dogfen y CGC [Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig - Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol](#) yn cynnwys enghreifftiau o amgylchiadau a'r addasiad i'r canran.

Dylai'r ganolfan gadw cofnod o'r digwyddiad a'r addasiad marcio, ar ffurf a fyddai ar gael i'w adolygu gan CBAC, pe byddai angen gwneud hynny. Dylai canolfannau sicrhau bod dysgwyr yn gwybod bod angen iddynt ddweud wrth eu hathrawon cyn neu yn syth ar ôl yr asesiad am unrhyw ddigwyddiadau y tu hwnt i'w rheolaeth a allai fod wedi effeithio ar eu perfformiad yn yr asesiad crynodol penodol.

7 Cadw tystiolaeth

Bydd angen cadw cofnodion fel ffordd o ddogfennu penderfyniadau graddio, rhag ofn. Ni fydd eu hangen oni bai bod yr arholiadau'n cael eu canslo.

Nid yw'n hanfodol, oherwydd y safbwynt polisi presennol i gynnal arholiadau yn 2022, i'r athro/athrawes farcio'r dystiolaeth asesu grynodol i gefnogi'r trefniadau wrth gefn hyn. Fodd bynnag, mae'n arferol i athrawon farcio asesiadau crynodol bob hanner tymor, ac i gynneg adborth i ddysgwyr i'w cefnogi wrth iddynt baratoi at gyfres arholiadau, cyn nodi canlyniadau ar eu systemau olrhain cynnydd.

Mae'n hanfodol bwysig i ganolfannau gadw'r dystiolaeth asesu grynodol a ddefnyddir i bennu gradd dysgwr os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu canslo arholiadau haf 2022. Os bydd y trefniadau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith, byddai angen y dystiolaeth o'r asesiadau crynodol i gefnogi'r canlynol:

- sut pennodd y ganolfan raddau dysgwyr ar gyfer cymwysterau
- y prosesau sicrhau ansawdd mewnol ac allanol
- y broses apeliadau.

Gellir cadw tystiolaeth ar ffurf copïau gwreiddiol neu wedi'u sganio o dystiolaeth ysgrifenedig neu ddogfennaeth ddigidol arall. Hefyd, rhaid i ganolfannau gadw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â threfniadau mynediad dysgwr, neu amgylchiadau personol sy'n effeithio ar ei berfformiad, a fyddai fel arfer yn gymwys am ystyriaeth arbennig yn ôl diffiniad dogfen y CGC [Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig](#). Mae'n bosibl y bydd angen ystyried y wybodaeth hon yn ddiweddarach os bydd angen i ganolfannau bennu graddau dysgwyr.